# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

## Cofnodion (LC1(3)-04-09)

**Dyddiad: 12 Chwefror 2009**
**Amser: 1.00pm - 2.32pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Christine Chapman (Cadeirydd dros dro), Cwm Cynon
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
Nick Ramsay, Sir Fynwy

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Liz Wilkinson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Bethan Roberts, Cynghorwr Cyfreithiol
Graham Winter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Tystion

Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Heledd Bebb, Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Peter Gomer, Dirprwy Gyfarwyddwr - Diwylliant a Hamdden, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Eifion Bowen, Ysgrifennydd, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Phennaeth Cynllunio, Cyngor Sir Gaerfyrddin

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Butler. Yn unol â'r confensiynau ynghylch gweithrediadau'r Pwyllgorau Deddfwriaeth y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes, roedd Christine Chapman yn dirprwyo ac fe'i hetholwyd yn Gadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod dan Reol Sefydlog 10.19. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Eleanor Burnham. Roedd Peter Black yn dirprwyo ar ei rhan.
1.2 Croesawyd Mohammad (Oscar) Ashgar yn aelod newydd o'r Pwyllgor.

### Eitem 2: Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) - Sesiwn Dystiolaeth 4

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Heledd Bebb, Swyddog Polisi gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Peter Gomer, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Hamdden, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac Eifion Bowen, Ysgrifennydd, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Phennaeth Cynllunio, Cyngor Sir Gaerfyrddin.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i baratoi nodyn ynghylch nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi cynnal asesiadau o fannau agored neu asesiadau tebyg eraill wrth lunio eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi manylion amcangyfrifon y gost o ymgynghori â chymunedau ar ddatganiadau effaith o dan Adran 4 (1) (c), neu fanylion unrhyw ddata cyffelyb.